**CABINET CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **11eg Chwefror 2025** |
| **Aelod Cabinet perthnasol:** | **Cyng. Nia Jeffreys, Arweinydd y Cyngor** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dafydd Gibbard – Prif Weithredwr** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun Arbedion a Thoriadau 2025/26** |

## 1. Y Penderfyniad a geisir

Gofynnir i'r Cabinet:

a) Gymeradwyo'r arbedion a thoriadau a restrir yn Atodiad A (£519k) i'w defnyddio fel cyfraniad tuag at ein bwlch cyllidol yn 2025/26, a chomisiynu'r Adrannau i symud ymlaen i weithredu y cynlluniau gan ddal sylw at y materion a amlygwyd yn yr adroddiad.

b) Dirprwyo'r hawl i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Cyllid, i wneud addasiadau i'r Cynllun Arbedion a Thoriadau hwn o fewn y cyfansymiau Adrannol wrth i aeddfedrwydd y cynlluniau a restrir yn Atodiad A ddatblygu, o fewn y cyfansymiau cyllidol.

## 2. Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

2.1 Rydym bellach yn gwybod beth fydd lefel ein Grant Cynnal Refeniw(GCR) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26 (cynnydd o 3.2%), ac y bydd yn sylweddol is na'r hyn fyddwn ei angen i gynnal ein lefel gwasanaethau presennol.

2.2 Rydym hefyd yn wynebu sefyllfa lle bo adrannau yn gorwario, yn bennaf oherwydd cynnydd parhaus yn y galw am eu gwasanaethau a'i bod yn amhosib erbyn hyn i rhai gwasanaethau megis gofal plant, gofal oedolion, gwastraff a priffyrdd allu gweithredu o fewn eu cyllideb presennol. Mae yn arwain at orwariant gan adrannau eleni o oddeutu £8M. Mae'r rhan helaeth o'r bwlch hwn yn deillio o ddiffyg cyllideb i gwrdd â galw uwch am wasanaethau ac yn y rhan fwyaf o achosion nid yw'n opsiwn i ni beidio a darparu y gwasanaethau hynny. Felly, byddwn yn gorfod defnyddio arian wrth gefn ar gyfer ymdopi â'r sefyllfa.

2.3 Gwyddwn hefyd ein bod yn wynebu cynnydd sylweddol mewn costau staffio yn sgil newid polisi San Steffan i gynyddu cyfraniad Yswiriant Gwladol y cyflogwr. Fel cyflogwr i 6,000 o staff, ychwanega hyn £4.5M at ein costau staffio.

2.4 Rydym wedi derbyn awgrym cryf y byddwn yn derbyn elfen o'r gost yma gan Lywodraeth Cymru o ganlyniad i ddarpariaeth ôl-ddilynol cyhoeddiad Llywodraeth San

Steffan i fod yn cyfarch costau ychwanegol i gyfraniadau cyflogwr Yswiriant Gwladol y sector gyhoeddus yn Lloegr, ond bod risg na fyddwn yn derbyn y swm yn ei gyfanrwydd. Mae'n annhebygol y byddwn yn derbyn unrhyw gyllid ychwanegol tuag at gynnydd costau Yswiriant Gwladol darparwyr allanol.

2.5 Cadarnhawyd hefyd na fyddwn yn derbyn unrhyw gadarnhad o gyfraniadau tuag at y cynnydd costau hyn tan yr haf, ymhell ar ôl gosod y gyllideb a chychwyn talu'r raddfa uwch o gyfraniad cyflogwr tuag at Yswiriant Gwladol.

2.6 O ystyried y wybodaeth rydym eisoes wedi ei dderbyn uchod, mae ein arbenigwyr cyllid o'r farn ei fod yn rhesymol i wneud tybiaeth y byddwn yn derbyn cyfraniad o £3.5M drwy law Llywodraeth Cymru tuag at gostau ychwanegol Yswiriant Gwladol.

2.7 Canlyniad y cynnydd mewn galw, yr angen i ddarparu cyllideb uwch ar gyfer yr adrannau sydd bellach methu ymdopi â'u cyllideb presennol, cynnydd mewn costau yswiriant gwladol na fyddai'n cael eu cyfarch yn gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru, a'r Grant Cynnal Refeniw, yw fod y Cyngor yn wynebu bwlch ariannol ar gyfer 25/26 o £8.77M.

2.8 Bydd y Pennaeth Cyllid yn cyflwyno adroddiad i'r Cabinet yn yr un cyfarfod a'r adroddiad hwn, a fydd yn amlinellu sut ydym am ymdopi gydag effaith y bwlch yma wrth osod ein cyllideb ar gyfer 2025/26. Bydd rhaid i'r gyllideb gynnwys cyfuniad o orfod cynyddu'r dreth Cyngor a chyflawni toriadau mewn cyllidebau ar draws y Cyngor. Pwrpas yr adroddiad hwn yw amlinellu sut yr ydym wedi mynd ati i ganfod y toriadau hyn a sicrhau cymeradwyaeth y Cabinet i'w gweithredu er mwyn gallu gosod cyllideb 2025/26.

***Trefn adnabod Arbedion a thoriadau***

2.9 Ymhellach i'r drefn o sefydlu cynllun arbedion y ddwy flynedd diwethaf, ac o ystyried ein bod bellach wedi disbyddu unrhyw arbedion effeithlonrwydd posib, aethpwyd ati i sefydlu cyfundrefn toriadau newydd yng Ngwanwyn 2024.

2.10 Yn ei gyfarfod ar 14 Mai 2024, bu i'r Cabinet gomisiynu'r Prif Weithredwr i sefydlu ac arwain ar ystod o fesurau a phecynnau gwaith, i ragbaratoi ar gyfer cyfarch y bwlch sylweddol yn ein cyllideb dros y tair mlynedd nesaf, a hynny yn cynnwys llunio cyfundrefn newydd sy'n adnabod y gwasanaethau mwyaf hanfodol i bobl Gwynedd er mwyn adeiladu'r hyn sydd o fewn ein gallu i'w ddarparu.

2.11 Yn ystod haf 2024, cynhaliwyd panel toriadau ar gyfer pob Adran. Bu i bob Pennaeth gyflwyno ystod o wybodaeth am bob tîm unigol o fewn eu hadran i banel oedd yn cynnwys Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet yr Adran, Aelod Cabinet cysgodol yr Adran, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr perthnasol.

2.12 Roedd y wybodaeth a gyflwynwyd i'r Panel yn cynnwys y canlynol ar gyfer pob tîm unigol:

- pwrpas y tîm,
- niferoedd staff,
- gwariant, grantiau ac incwm,
- swyddogaeth statudol ac esboniad o'r elfennau statudol
- effaith ar bobl Gwynedd petai'r tîm yn dod i ben, neu leihau, neu effaith ar adrannau eraill y Cyngor
- ydi'r gwasanaeth ar gael i drigolion yn rhywle arall?

2.13 Gofynnwyd i aelodaeth y panel roi eu barn os gellid ystyried diddymu y swyddogaeth yn gyfan gwbl, os gellid lleihau y ddarpariaeth a derbyn y byddwn yn cyflawni llai neu yn arafach, neu os na ddylid ystyried lleihau adnodd i'r tîm. Dadansoddwyd yr ymatebion hynny a sefydlwyd rhestr hir o opsiynau toriadau.

2.14 Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Penaethiaid er mwyn adrodd yn ôl ar gasgliadau y paneli toriadau a chytunwyd ar fanylder yr opsiynau a fyddai'n mynd ymlaen i'r cam nesaf, sef cyflwyno i'r holl aelodau am arweiniad os ydynt yn fodlon i dorri yn y meysydd dan sylw er mwyn gosod cyllideb gytbwys.

2.15 Daethpwyd i gasgliad y byddai'n fwy buddiol i ystyried y GCR yn llawn er mwyn gweld effaith ar y bwlch cyllido cyn ymgynghori â'r aelodau etholedig er mwyn iddynt gael gwybodaeth gorau posib i'w harfogi cyn mynegi eu barn.

2.16 Gyda hynny mewn golwg, fe gynhaliwyd gweithdai i holl aelodau etholedig ym mis Ionawr 2025 er mwyn blaenoriaethu cynlluniau toriadau ar gyfer 25/26.

2.17 Cyflwynwyd 39 o gynigion gyda chyfanswm eu gwerth oddeutu £1.89M. Fe aseswyd pob un o'r rhain unai gennyf i neu gan un o'r Cyfarwyddwyr gan osod pob cynllun yn y categorïau canlynol er mwyn helpu'r Aelodau i allu mynd ati i flaenoriaethu gydag ymwybyddiaeth o beth fyddai'r lefel risg o weithredu unrhyw gynnig unigol.

| | |
|---|---|
| **Arbediad effeithlonrwydd** | Dim angen y gyllideb, neu'r gwasanaeth i gael ei ddarparu mewn ffordd wahanol gyda dim effaith o sylwedd ar drigolion Gwynedd |
| **Toriad** | Toriad sy'n arwain at effaith bychan ar berfformiad neu ddarpariaeth y gwasanaeth |
| **Toriad** | Toriad sy'n arwain at effaith amlwg ar berfformiad neu ddarpariaeth y gwasanaeth |
| **Toriad** | Toriad sy'n arwain at effaith sylweddol ar berfformiad neu ddarpariaeth y gwasanaeth |

2.18 Bu i ni hefyd gynnal asesiad cyfreithiol ag asesiad ariannol lefel uchel ar bob cynllun unigol er mwyn sicrhau eu bod yn gynlluniau oedd yn bosibl eu cyflawni.

2.19 Pan yn cyflwyno'u cynigion, roedd yn cynnwys esboniad o effaith pob cynnig ar drigolion Gwynedd ynghyd ag ystyriaeth gychwynnol i ystyriaethau cydraddoldeb.

Cynhaliwyd dau weithdy a sawl sesiwn un i un, lle bu i’r Cyfarwyddwyr a minnau gyflwyno’r cynigion i weithdai o Aelodau etholedig y Cyngor.

2.20 Yn ystod y gweithdai, bu i’r Aelodau nodi os oeddent yn fodlon gweithredu pob un o’r 39 o gynigion, neu, os nad oeddent yn fodlon eu gweithredu, derbyn bod angen cynyddu’r dreth cyngor gyfwerth â gwerth ariannol y toriad oedd dan sylw. Er enghraifft “lleihau capasiti yn y tîm rheoli harbyrau a fyddai’n arbed £35,000, neu gynyddu’r dreth gyfwerth â 0.04%”

***Ymgynghoriad strategaeth ariannol***

2.21 Cyn cynnal y gweithdai hyn, bu i ni hefyd gynnal Ymgynghoriad Cyhoeddus gan esbonio sefyllfa ariannol y Cyngor a’r tebygolrwydd y byddem yn gorfod gweithredu toriadau fel rhan o’r ymdrech i gyfarch ein bwlch ariannol yn 25/26.

2.22 Yn hytrach na gofyn i'r cyhoedd adnabod meysydd lle fyddent yn fodlon cyflawni toriadau, gofynnwyd i bawb adnabod y 5 maes gwasanaeth oedd bwysicaf iddynt hwy.

2.23 Cafwyd 627 o ymatebion (Atodiad B), a’r 5 maes ddaeth i'r brig, yn ôl trefn blaenoriaeth oedd:

1. Addysg – ysgolion cynradd ac uwchradd
2. Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion - darparu cefnogaeth a gofal i oedolion sydd ag anghenion gofal / anabledd e.e. gofal cartref / cartrefi gofal
3. Priffyrdd - cynnal a chadw ffyrdd
4. Gwasanaethau Cymdeithasol Plant - darparu cefnogaeth, diogelu, a gofal i blant sy'n agored i niwed / sydd ag anabledd
5. Tai – adeiladu tai cymdeithasol, cynlluniau tai i bobl leol

2.24 Roedd yr uchod yn ystyriaeth bwysig wrth fynd ati i flaenoriaethu cynigion toriadau a hefyd gosod cyllideb 25/26. Mae’n braf gallu cadarnhau nad ydym wedi gorfod gweithredu toriadau yn y meysydd hyn a’n bod unwaith eto wedi gallu gwarchod cyllidebau ysgolion a gwasanaethau i bobl fregus i sir, ac yn wir wedi gallu ychwanegu at y cyllidebau hynny mewn sawl achos.

***Casgliadau’r gweithdai***

2.25 Roedd consensws bras ymysg yr aelodau o ran pa gynlluniau y dylid eu blaenoriaethu, a daeth i’r amlwg nad oedd awydd i fod yn gweithredu llawer o doriadau. Yn wir roedd 21 allan o’r 39 o opsiynau yn rhai lle nad oedd dros hanner yr aelodau yn gefnogol i'w gweithredu.

2.26 Dim ond ar gyfer 9 opsiwn cafwyd consensws ymysg dros 80% o’r aelodau eu bod yn fodlon eu gweithredu.

2.27 Drwy fynd islaw'r trothwy hwn, roedd y wahaniaeth barn ymysg aelodau yn fwy fwy amlwg ac yn un o'r ystyriaethau wrth benderfynu ar restr arbedion a thoriadau i'w mabwysiadu.

2.28 Y casgliad oedd fod cefnogaeth i weithredu oddeutu £519k o'r cynigion dros y ddwy neu dair blynedd nesaf, yn unol â phroffil bras fel a ganlyn:

| **2025/26** | **2026/27** | **2027/28** |
|---|---|---|
| £100,000 | £320,500 | £98,500 |

2.29 Gellir gweld rhestr gyflawn o'r cynigion sydd wedi eu blaenoriaethu i'w gweithredu yn Atodiad A. Yn fras gellir eu gosod yn y grwpiau canlynol o ran y math o gynllun sydd dan sylw:

| | |
|---|---|
| **Cynyddu incwm**<br>Bydd hyn yn cynnwys cynyddu'r ffioedd am wasanaethau. | £90,000 |
| **Lleihau adnoddau neu gyfuno gwasanaethau**<br>Gall hyn yn golygu oediad mewn derbyn gwasanaeth neu lleihad ym mherfformiad y gwasanaeth. | £429,000 |
| **Cyfanswm** | **£519,000** |

2.30 Er fod rhai o'r arbedion yma yn gorgyffwrdd gyda swyddogaethau dyletswyddau statudol penodol, nid ydynt yn golygu peidio a chyflawni y dyletswyddau yma.

***Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio***

2.31 Yn ei gyfarfod ar y 6ed o Chwefror 2025, fe fydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn craffu y broses o adnabod arbedion a thoriadau.

***Ystyriaethau pellach***

2.32 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Paratowyd y cynllun o fewn egwyddorion y Ddeddf gan weithredu y 5 ffordd o weithio statudol.

2.33 Bu lleihau ardrawiad ar drigolion Gwynedd a chenedlaethau'r dyfodol yn greiddiol i'r broses o adnabod arbedion a thoriadau. Mae'r broses ynddo'i hun wedi hidlo'r cynigion gan adnabod y rhai â'r ardrawiad lleiaf, ac i warchod yr amcanion llesiant / meysydd blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor.

2.34 Yn unol â gofynion Mesur Iaith 2011, ystyrir effaith ardrawiad iaith wrth wneud penderfyniadau. Mae'r Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol yn Atodiad C yn edrych ar y Cynllun Toriadau yn ei gyfanrwydd ac yn casglu y bydd yr un gwasanaethau ar gael yng Nghymraeg a Saesneg yn dilyn gweithredu y toriadau felly ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

2.35 Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Y Ddeddf") (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymreig) wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i'r Cyngor dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig ynghyd a dal sylw at ardrawiadau economaidd gymdeithasol.

2.36 Cloriannwyd yr oblygiadau ac ardrawiadau yn unol â'r dyletswydd dan y Deddf wrth ddatblygu a blaenoriaethu y cynigion. Mae Asesiad Ardrawiad Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol wedi ei baratoi yn Atodiad C sydd yn cloriannu ardrawiad yr arbedion a argymhellir. Mae'r asesiad ardrawiad wedi bod yn rhan o'r gwaith yma ar hyd y daith a bydd yn parhau wrth i'r cynlluniau gael eu gweithredu. Fodd bynnag ni ystyrir fod yr Asesiad wedi adnabod materion fyddai yn creu angen am gyfeiriad amgen i'r penderfyniad a geisir.

**3. Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Mae'r rhaglen hon o arbedion a thoriadau arfaethedig wedi bod yn destun proses asesu fanwl fel y'i nodwyd. Fodd bynnag, rhaid cydnabod bod amrywiaeth o gynlluniau yma sy'n cynrychioli toriadau i wasanaethau a fydd yn cael effeithiau amrywiol. Mae hefyd yn briodol nodi bod y Cabinet yn derbyn sicrwydd yn yr adroddiad ynghylch parhau i gyflawni dyletswyddau statudol. Mae'r ddirprwyaeth a gynigir hefyd yn briodol. Mae asesiad effaith Cydraddoldeb ac Iaith wedi'i baratoi fel rhan o'r broses ac mae angen i'r Cabinet ei ystyried yn ogystal â chanlyniadau'r ymgynghoriad. Mae cymeradwyo'r arbedion arfaethedig hyn yn caniatáu i'r Cabinet argymell Cyllideb gytbwys i'r Cyngor Llawn. Rwy'n fodlon â phriodoldeb yr adroddiad.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae swyddogion yr Adran Gyllid wedi cydweithio'n agos gydag awdur yr adroddiad, a gallaf gadarnhau gywirdeb y ffigyrau sydd wedi ei gynnwys ynddo. Mae gwireddu arbedion o'r

gwerthoedd a nodir yn hanfodol er mwyn ein galluogi i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26.

---

**Atodiadau**

**Atodiad A**: Rhestr A - Arbedion a Thoriadau
**Atodiad B:** Canlyniadau Holiadur Strategaeth Ariannol
**Atodiad C:** Asesiad Cydraddoldeb